# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Medi 2020

Amser: 12.31 - 13.22

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

*Amseru ar gyfer datganiadau*

Ymgynghorodd y Llywydd â'r Rheolwyr Busnes a chadarnhaodd y dylai llefarwyr siarad unwaith am uchafswm o bum munud yn ystod datganiadau. Cadarnhaodd hefyd fod pob Aelod arall yn parhau i gael ei gyfyngu i un funud yr un mewn cyfarfodydd rhithwir a hybrid, ac y bydd yn dychwelyd i alw'r Ceidwadwyr yn gyntaf bob amser ar ddatganiadau.

*Amseru ar gyfer Cwestiynau Llafar*

Cadarnhaodd y Llywydd y bydd yr holl gwestiynau atodol yn parhau i gael eu cyfyngu i un funud.

Cadarnhaodd y Llywydd hefyd y bydd cwestiynau Arweinwyr a Llefarwyr yn parhau i gael eu cyfyngu i un funud y cwestiwn (3 chwestiwn i'r Ceidwadwyr a Phlaid Cymru a 2 i Blaid Brexit).

*Mygdau yn y Siambr*

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y gellir gwisgo mygydau yn y Siambr, ond nad oes eu hangen, ac y dylai Aelodau eu tynnu wrth siarad.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr amserlen ddiwygiedig, a ddosbarthwyd y bore yma, a oedd yn ychwanegu dwy gyfres arall o reoliadau at grŵp dydd Mawrth 22 Medi: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020.

### 3.3 Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ynghyd â'r papur, a chytunodd i drefnu'r ddadl ar 7 Hydref ynghyd ag eitemau eraill o fusnes:

**Dydd Mercher 7 Hydref 2020 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: - Ymchwiliad i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd: Diwygio’r Senedd: y camau nesaf (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Amlygu’r materion: anghydraddoldeb a’r pandemig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Busnes y Senedd

### 4.1 Trefniadau ar gyfer busnes y Senedd yn nhymor yr hydref

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu seibiannau yfory ar ôl y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes ac ar ôl y Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn galluogi Aelodau i gyfnewid yn y Siambr.

Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n gofyn i'r Aelodau Annibynnol gytuno pryd y byddent yn bresennol yn y Siambr, ac os na allant benderfynu rhyngddynt, yna gellir cynnal pleidlais arnynt.

Nododd y Pwyllgor y bydd diweddariad ar opsiynau ar gyfer cynyddu nifer yr Aelodau sy'n gallu bod yn bresennol yn y Siambr ar unrhyw un adeg yn cael ei ddarparu ar ôl cyfarfod y Comisiwn ddiwedd mis Medi; a hefyd
nododd y trefniadau ar gyfer treialu cyfarfodydd  hybrid o ran pwyllgorau, fel y nodir yn yr Atodiad i'r papur.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'n ddefnyddiol cael rhagolwg hirach o fusnes y llywodraeth a busnes nad yw'n fusnes y llywodraeth os yw'n bosibl, er mwyn helpu Aelodau i gynllunio eu presenoldeb.

## 5 Deddfwriaeth

### 5.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Iau 17 Medi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 5.2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Iau 17 Medi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 5.3 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 21 Medi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

*Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 21 Medi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

*Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 21 Medi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 5.4 Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Iau 24 Medi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 5.5 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Nododd y Pwyllgor Busnes y sefyllfa ddiweddaraf o ran Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cam-drin Domestig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad o 5 Tachwedd.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestri) (Rhif 2) i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad o 5 Tachwedd.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

### 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr gan y Pwyllgor Cyllid a chytunodd ar amserlen y gyllideb fel y'i cynigiwyd gan y llywodraeth, gan nodi hefyd ei bod yn bosibl y bydd yn newid unwaith y bydd bwriadau Llywodraeth y DU yn hysbys.

## 7 Y Rheolau Sefydlog

### 7.1 Ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad – newidiadau i weithdrefnau ariannol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr adroddiad drafft, gyda gweithdrefnau diwygiedig i ddod i rym unwaith y bydd y darpariaethau statudol perthnasol wedi dod i rym. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid gosod yr adroddiad erbyn dydd Mercher 16 Medi 2020 er mwyn ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Medi 2020.

## Unrhyw Fater Arall

### Amseriad y Pwyllgor Busnes

Cododd y Llywydd y mater o amseriad cyfarfod y Pwyllgor Busnes, gan fod y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau bellach wedi dychwelyd i'r strwythurau arferol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i symud y cyfarfod i ddydd Mawrth am 9.00am.

### Pwyllgor y Llywydd

Gofynnodd y Llywydd i'r Ceidwadwyr a Phlaid Cymru roi enwau eu henwebeion i'r Ysgrifenyddiaeth erbyn diwedd y dydd ddydd Mawrth.